# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021

## Adroddiad ar Effaith Covid-19 Cam 7

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
46/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
GORFFENNAF 1, 2021



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80195-585-0

© Hawlfraint y Goron 2021

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021: Adroddiad ar Effaith COVID-19 Cam 7.

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymu

This document is also available in English.
Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-80195-585-0
Gorffennaf 1, 2021
© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Cynnwys**

1. Prif Ganfyddiadau ........ 2
2. Cefndir a Methodoleg ........ 4
3. Perfformiad Hanner Tymor Mis Mai ........ 5
4. Archebion Ymlaen Llaw ........ 9
5. Lefelau Staffio a Phroblemau Recriwtio ........ 17
6. Hyder ........ 25

## 1. Prif Ganfyddiadau

**Mae perfformiad hanner tymor mis Mai yn ymwneud â chapasiti gweithredu**

1.1 Cafodd un o bob pum gweithredwr (20%) a oedd ar agor ar gyfer hanner tymor mis Mai fwy o gwsmeriaid o'i gymharu â blwyddyn arferol, cafodd tua hanner yr un lefel, a chafodd 28% lai.

1.2 Mae perfformiad cymysg oherwydd capasiti cyfyngedig, nid diffyg galw. Derbyniodd bron pob busnes (97%) a oedd yn gweithredu ar gapasiti llawn fwy o gwsmeriaid neu'r un lefel o'i gymharu â hanner tymor mis Mai 'arferol'. Fodd bynnag, cafodd y rhan fwyaf (62%) o'r rheini a oedd yn gweithredu ar lai na gapasiti llawn lai o ymwelwyr nag arfer.

**Mae llawer o archebion yn cael eu gwneud ar gyfer tymor brig yr haf**

1.3 Mae oddeutu dau o bob pump (41%) busnes sy'n cymryd archebion ymlaen llaw yn 2021 wedi cael mwy nag arfer ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae 36% wedi cael yr un lefel. Y sectorau mwyaf addawol yw'r rhai sy'n fwy hunangynhwysol ac felly yn gallu gweithredu ar gapasiti uwch: meysydd carafanau (mae 58% wedi cael mwy o archebion ymlaen llaw nag arfer) a llety hunanddarpar (48%).

1.4 Ymhlith y rhanbarthau, mae'r capasiti'n llenwi gyflymaf yn ne-orllewin Cymru – mae 55% wedi cael mwy o archebion ymlaen llaw nag arfer ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn.

1.5 Ar gyfer mis Awst, ar gyfartaledd mae 90% o'r capasiti hunanddarpar sydd ar gael wedi'i archebu fesul gweithredwr, ond ar hyn o bryd, mae'n llawer is (60%) ymhlith llety â gwasanaeth.

**Bwrlwm o weithgarwch archebu, canslo ac ailarchebu**

1.6 Gall unrhyw archebion fod yn ansicr, ond gan fod cymaint o alw ar hyn o bryd am wyliau hir gartref yn y DU, nid yw'n anodd llenwi lleoedd sydd wedi'u canslo. Mae'n bosibl iawn y bydd llwyddiant y diwydiant yn ystod yr haf yn dibynnu ar ddau ffactor: (a) capasiti gweithredu a (b) a fydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cyflwyno i reolau teithio dramor cyn tymor brig yr haf.

**Ddim yn gallu cael gafael ar staff**

1.7 Mae 22% o fusnesau yn ceisio llenwi swyddi gwag ar hyn o bryd. Mae oddeutu hanner (51%) ohonynt yn profi anhawster 'sylweddol' wrth wneud hynny. Mae'n ymddangos bod ffyrlo wedi rhoi amser i lawer o weithwyr ystyried a ydynt wir eisiau parhau i weithio yn y diwydiant twristiaeth. Nid yw llawer bellach yn ei ystyried yn swydd werth chweil oherwydd cyflog isel, oriau gwrthgymdeithasol neu ansicrwydd swydd.

**Lefel resymol o hyder**

1.8 Mae 27% o weithredwyr yn ‘hyderus iawn’ am redeg busnes twristiaeth er elw am weddill y flwyddyn ac mae 42% yn ‘weddol hyderus’. Y prif ffactor yw bod angen iddynt aros ar agor.

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn.

2.2 Yr arolwg hwn yw'r seithfed cam i ymchwilio i effaith pandemig COVID-19 ar y diwydiant twristiaeth.

### Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.3 Rydym wedi cynnal 800 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae hyn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.5%. Yn gyffredinol, mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:


| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 111 | 39 | 88 | 36 | **274** |
| Hunanddarpar | 64 | 47 | 90 | 32 | **233** |
| Meysydd carafanau / gwersylla | 62 | 16 | 20 | 12 | **110** |
| Hostelau | 8 | 6 | 7 | 5 | **26** |
| Atyniadau | 24 | 18 | 17 | 22 | **81** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 16 | 7 | 12 | 5 | **40** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 6 | 12 | 7 | 11 | **36** |
| **Cyfanswm** | **291** | **145** | **241** | **123** | **800** |

2.4 Mae 75% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Groeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol.

2.5 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 8 ac 17 Mehefin.

## 3. Perfformiad Hanner Tymor Mis Mai

### Ar agor ar gyfer hanner tymor




**Mae twristiaeth yn ôl**

3.1 Yn dilyn cyfnodau hir o fod ar gau ac ansicrwydd, mae diwydiant twristiaeth Cymru wedi ailagor am fusnes eto. Roedd y rhan fwyaf (86%) o fusnesau ar agor ar gyfer yr hanner tymor diweddar ym mis Mai.

**Mae rhai sectorau yn dal i wynebu heriau ailagor**

3.2 Nid yw'n bosibl i rai darparwyr gweithgareddau agor gan eu bod wedi colli eu marchnad allweddol (teithiau ysgol) neu oherwydd cymhlethdodau o ran cadw pellter cymdeithasol.

*" Dydy ymweliadau preswyl addysgol awyr agored dal ddim yn cael eu caniatáu yngNghymru, felly ar ôl 20 mlynedd, bu'n rhaid i mi gael swydd fel gyrrwr danfon nwyddau a chau ochr gweithgareddau'r busnes."*
Darparwr gweithgareddau, y Gogledd


*"Dydyn ni ddim yn mynd â phobl allan i ddeifio ar gyrsiau. Doeddwn i ddim yn gallu edrych ar rywun yn cael trafferth â'r offer a chadw dau fetr ar wahân"*
Darparwr gweithgareddau, y Gogledd

3.3 Nid yw rhai atyniadau wedi ailagor eto oherwydd nad ydynt yn fentrau hollol fasnachol felly nid ydynt o dan yr un pwysau â gweithredwyr y sector preifat. Mae cynlluniau i ailagor, ond nid o reidrwydd gyda'r un lefel o frys. Mae rhai atyniadau dan do hefyd yn ei chael yn anodd gweithredu a chadw pellter cymdeithasol.

*" Elusen ydyn ni, felly does dim rhaid i ni boeni am elw"*
Atyniad, y De-ddwyrain

*" Bydden ni wrth ein bodd yn cael ymwelwyr yn ôl ond allwn ni ddim agor ein siop elusen na'r caffi dan do hyd yn oed, heb sôn am y gweithgareddau dan do. Elusen gofrestredig ydyn ni, sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr."*
Atyniad, y Canolbarth

## Capasiti gweithredu





### Capasiti gweithredu a'r effeithiau ar nifer y cwsmeriaid

3.4 Roedd ychydig dros hanner (57%) o fusnesau, a oedd ar agor yn ystod hanner tymor mis Mai, yn gweithredu i'w capasiti llawn, ond mae canfyddiadau'n amrywio fesul sector – po fwyaf hunangynhwysol yw'r gwesteion yn naturiol, yr uchaf yw'r capasiti. Roedd pedwar o bob pump (80%) o weithredwyr hunanddarpar a thri o bob pump (60%) maes carafanau yn gallu gweithredu ar gapasiti llawn. Ar ben arall y raddfa, roedd oddeutu hanner (51%) y darparwyr gweithgareddau a oedd ar agor yn gweithredu ar gapasiti o lai na hanner y capasiti arferol.


3.5 Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer canlyniadau'r cwestiwn canlynol.

## Nifer yr ymwelwyr hanner tymor ym mis Mai




### Mae perfformiad yn cyfateb yn gadarn i'r capasiti gweithredu

3.6 Yn gyffredinol, cafodd un o bob pump (20%) o weithredwyr fwy o gwsmeriaid o'i gymharu â blwyddyn arferol, cafodd oddeutu hanner (52%) yr un lefel, a chafodd 28% lai. Nid yw'r cyfrannau sy'n brysurach nag arfer yn amrywio'n sylweddol fesul rhanbarth. Mae'r siart ganlynol yn dangos sut mae canlyniadau C3 yn cyd-fynd yn gryf â chapasiti gweithredu (C2):



**Amser prysur i feysydd carafanau**

3.7 Roedd y gwyliau hanner tymor yn gyfnod prysur i feysydd carafanau. Roedd gallu gweithredu ar lefel dda o gapasiti'n golygu eu bod yn gallu manteisio ar alw domestig uchel.

*“Mae llawer o bobl yn archebu. Dydyn ni erioed wedi cael gymaint o bobl yn archebu. Rydyn ni wedi bod yn prynu carafanau ac maen nhw’n cael eu gwerthu cyn iddyn nhw gael eu danfon i’r safle’."*
Parc carafanau, y Canolbarth

**Niferoedd arferol mewn llety hunanddarpar**

3.8 Mae’r rhan fwyaf o weithredwyr hunanddarpar yn dweud eu bod wedi derbyn yr un lefel o ymwelwyr ag arfer ar gyfer hanner tymor mis Mai. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod nifer mawr o bobl yn ailarchebu gwyliau a gafodd eu canslo’n flaenorol oherwydd COVID-19.

*“Rydyn ni’n dal i gynnig llety i ymwelwyr rheolaidd a wnaeth ohirio eu gwyliau y llynedd "*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth


**Heriau a brofwyd gan ddarparwyr gweithgareddau a bwytai / tafarndai / caffis**

3.9 Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr gweithgareddau wedi cael llai o gwsmeriaid nag arfer, ac mae hyn yn gysylltiedig â chapasiti gweithredu yn hytrach na diffyg galw, gydag oddeutu eu hanner yn gallu gweithredu ar gapasiti o lai na 50% o'r capasiti arferol. Mae'r sefyllfa'n debyg yn achos bwytai, tafarndai a chaffis.

*“ Dim ond un grŵp neu gwpl y gallwn ni fynd â nhw ar y cwch ar y tro, ond mae .... rydyn ni’n cael digon o archebion’"*
Darparwr gweithgareddau, y Gogledd

*" Rydyn ni’n cymryd llai o archebion nag arfer oherwydd capasiti cyfyngedig’"*
Tafarn, y de-ddwyrain

## 4. Archebion Ymlaen Llaw




*Gofynnwyd C5 i fusnesau sydd yn cymryd archebion ymlaen llaw yn 2021*

### Rhagolygon da ar gyfer darparwyr llety

4.1 Mae'r rhan fwyaf (91%) o fusnesau'n cymryd archebion ar hyn o bryd yn 2021. Ymhlith y rheini sy'n cymryd archebion, mae gan 41% fwy o archebion ymlaen llaw nag arfer ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, mae gan 36% yr un lefel, ac mae gan 23% lai o archebion.

4.2 Mae'r canlyniadau ar gyfer gweithredwyr llety yn fwy addawol nag ar gyfer gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety ar yr adeg hon, yn enwedig mewn sectorau sy'n fwy hunangynhwysol.


*"Mae pobl yn archebu am yr haf yn gynt na'r arfer.*
Parc carafanau, y Gogledd

### Amrywiaeth fesul sector – yn edrych yn dda ar gyfer de-orllewin Cymru

4.3 Mae'r cyfrannau sy'n gweld mwy o archebion ymlaen llaw nag arfer ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn yn amrywio fesul rhanbarth:

- De-orllewin (55%)
- Gogledd (41%)
- Canolbarth (33%)
- De-ddwyrain (23%)

## Rhesymau dros fwy o archebion ymlaen llaw





### Galw cynyddol am wyliau gartref

4.4 Gyda llawer o ansicrwydd yn parhau o ran pa bryd y gellir mynd ar wyliau d ramor heb orfod mynd i gwarantin ac i ba wledydd, mae teithwyr o'r DU yn archebu gwyliau gartref. Mae hyn, ynghyd â'r awydd i fynd ar wyliau ar ôl cyfyngiadau symud yng Nghymru yn arwain at fwrlwm o archebion yng Nghymru. Yn achos rhai gweithredwyr, mae gwesteion y DU yn gwneud yn iawn am y diffyg gwesteion tramor arferol.

*"Mae fy holl archebion gan bobl Brydeinig. Rydw i fel arfer yn cael llawer o bobl o'r Almaen, Americar a Chanada."*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*"Mae'n wallgof. Rydyn ni'n llawn yn barod ar gyfer mis Mehefin, mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi ond maen nhw'n dod am ddwy, tair neu bedair noson ond maent yn dod am bump, chwech neu saith noson gan nad ydyn nhw'n gallu mynd tramor'."*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

## Rhesymau dros lai o archebion




### Ddim yn gallu manteisio ar alw mawr

4.5 Ni all rhai gweithredwyr elwa ar y galw domestig cynyddol oherwydd nad yw eeu cyfyngiadau capasiti yn caniatáu hyn.

*"Mae mwy o dwristiaid yn yr ardal ond mae'n rhaid inni wrthod pobl achos does dim capasiti"*
Parc carafanau, y Gogledd

### Rhai teithwyr yn ymddwyn yn bwyllog

4.6 Yn ôl rhai busnesau, er eu bod yn gweld galw mawr, mae'r ymholiadau'n dod i mewn ar y funud olaf yn hytrach nag ymhell o flaen llaw. Mae'r rhesymau dros ymddygiad archebu pwyllog yn cynnwys cadw llygad ar y rhagolygon tywydd ac am unrhyw newidiadau yn rheolau COVID-19.


*"Rwy'n credu bod pobl wedi bod yn aros cyn archebu'n ddiweddar, yn aros am ddiweddariadau ar yr hyn y bydd Boris [Johnson] a'r Prif Weinidog yn ei ddweud"*
Parc carafanau, y Gogledd

*"Llawer o archebion ar y funud olaf"*
Hostel, y Gogledd

## Capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu fesul mis

**C8 "Tua pa ganran o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer ...? Wrth 'gapasiti sydd ar gael' rydym yn golygu'r lefel capasiti rydych chi'n meddwl y gallwch chi weithredu arni."**

***Dangosir lefelau deiliadaeth bras wedi'u harchebu***






*Gofynnwyd C8 i fusnesau sydd yn cymryd archebion yn 2021.Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio o'r canlyniadau.*

### Lefelau archebion ymlaen llaw addawol ar gyfer yr haf

4.7 Mae llawer o'r capasiti sydd ar gael eisoes wedi'i archebu ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst. Fodd bynnag, nid yw'n amhosib i unrhyw un sydd dal yn chwilio am wyliau'r haf yng Nghymru ddod o hyd i wely achos nid yw llawer o weithredwyr llety yn llawn eto. Mae'r siartiau isod yn dangos mwy o fanylion fesul sector ar gyfer yr haf:

**Deiliadaeth ar gyfartaledd wedi'i bwcio ar gyfer mis Gorffennaf**







**Mae llety hunanddarpar yn cael ei archebu'n gyflymaf**

4.8 Ym mis Gorffennaf a mis Awst, llety hunanddarpar yw'r llety mwyaf anodd i ddod o hyd iddo. Ym mis Awst, mae oddeutu 90% o’r capasiti sydd ar gael gan weithredwyr wedi cael ei archebu ar gyfartaledd.

4.9 Yn gyffredinol, mae mwy o archebion ar gyfer llety heb wasanaeth na llety â gwasanaeth, sydd â chyfartaledd o 60% o'r capasiti sydd ar gael wedi'i archebu ar gyfer mis Awst.

4.10 Gellir hefyd gweld gwahaniaethau rhwng sectorau'n glir gan gymharu'r cyfran o fusnesau sydd wedi'u harchebu'n llawn ar gyfer mis Awst:





**Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth ar gyfer mis Awst**

4.11 Hyd yma, nid yw de-ddwyrain Cymru yn gweld yr un lefel uchel o archebion ymlaen llaw ag y mae rhanbarthau eraill Cymru. Mae'r capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfartaledd ar gyfer mis Awst yn ôl rhanbarth fel a ganlyn:

- De-orllewin (77%)
- Gogledd (74%)
- Canolbarth (67%)
- De-ddwyrain (49%)

**Archebion ymlaen llaw ar gyfer yr hydref**




4.12 Mae archebion ymlaen llaw ar gyfer mis Medi'n weddol sylweddol yn enwedig o ran hunanddarpar eto, ond y tu hwnt i fis Medi, mae rhai gweithredwyr yn nodi bod yna

ostyngiad  sylweddol. Rydym yn cwmpasu hyn o dan ‘Sylwadau agored ar dueddiadau archebu’.

## Sylwadau agored ar dueddiadau archebu

4.13 Mae sylwadau agored yn dangos ei bod yn eithaf anodd rhagweld ar yr adeg hon sut mae'r diwydiant yn mynd i ddod ymlaen yr haf hwn er gwaethaf data am archebion ymlaen llaw,.

### Bwrlwm o weithgarwch yn digwydd y tu ôl i'r llenni

4.14 Wrth inni agosáu at dymor brig yr haf, mae gweithredwyr yn brysur iawn yn delio ag ymholiadau, archebion, archebion yn cael eu canslo ac ailarchebion. Cymysg iawn yw’r sylwadau  ynghylch a yw'r tueddiad presennol i archebu ymlaen llaw neu ar y funud olaf – mae'n ymddangos ei fod yn gyfuniad o'r ddau. Mae rhai archebion yn cael eu gwneud ymhell ymlaen llaw, wedyn yn cael eu canslo, dim ond i rywun arall gael y lle.

*“Hyd yn oed pan fydd pobl yn canslo, mae rhywun arall yn archebu’r lle ar unwaith"*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

*"Os yw rhywun yn canslo, mae'n cael ei archebu eto mewn deg munud neu hanner awr ar y mwyaf"*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

4.15 Oni bai bod newid sylweddol mewn rheolau teithio i gyrchfannau tramor poblogaidd yn fuan, yn seiliedig ar y sylwadau mae'n ymddangos mai’r senario mwyaf tebygol ar gyfer twristiaeth i Gymru eleni yw y bydd y capasiti sydd ar gael yn llawn. Mae hyn oherwydd bod llawer o ymholiadau yn dod i mewn, a hyd yn oed os bydd rhai archebion ymlaen llaw yn cael eu canslo ar y  funud olaf, mae digon o alw i'w lenwi’r lleoedd hyn.

*"Fel arfer, mae pobl ond yn archebu wythnos neu ddwy ymlaen llaw ond does bron dim ystafell yn rhydd yma rhwng nawr a mis Medi. Fel arfer rydw i’n cael 25% o’r ymholiadau rydw i’n eu cael ar hyn o bryd.Mae'n wallgof!"*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*“ Mae llawer o bobl yn canslo. Maen nhw’n canslo’n syth. Maen nhw’n mynd ar booking.com ac yna’n penderfynu pa un maen nhw ei eisiau. Mae unrhyw archebion sy’n cael eu canslo yn cael eu llenwi’r reit gyflym. Rydyn ni’n osgoi anfon negeseuon e-bost i gadarnhau archebion ar hyn o bryd gan mai’r duedd yw eu bod nhw’n canslo o fewn ychydig oriau."*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*“Mae llawer o bobl yn canslo.Mae pobl yn archebu mewn panig ac wedyn yn newid eu meddwl, am ba reswm bynnag.Ond mae’r lleoedd gwag yn cael eu cymryd.”*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

**Arosiadau hirach**

4.16 Mae tuedd amlwg tuag at arosiadau hirach. Ni all teithwyr y DU fynd dramor yn hawdd felly maent yn archebu eu prif wyliau yn y DU yn hytrach.

4.17 Mae rhan o'r duedd tuag at arosiadau hirach yn cael ei gorfodi gan weithredwyr sy'n caniatáu arosiadau o hyd penodol yn unig. Mae hyn weithiau oherwydd galw mawr, ond weithiau oherwydd y glanhau ychwanegol sydd ei angen rhwng arosiadau.

"*Mae pobl yn archebu am bedair, pum noson ac am wythnos sy'n anghyffredin iawn.Rydyn ni wedi dechrau gwneud arosiadau o ddwy noson o leiaf oherwydd y glanhau."*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*"Mae mwy o bobl yn archebu arosiadau am wythnos yn lle penwythnosau."*
Parc carafanau, y De-ddwyrain

*"Mae pobl yn archebu arosiadau hirach.Maen nhw'n ein gweld ni fel eu prif wyliau gan nad ydyn nhw'n gallu mynd dramor."*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*"Llawer mwy o arosiadau hirach (pythefnos)"*
Parc carafanau, y Gogledd

**Ychydig o sylwadau ynglŷn â'r gostyngiad mewn archebion ar ôl mis Medi**

4.18 Mae rhai gweithredwyr o'r farn bod mis Hydref ymlaen yn edrych yn llawertawelach nag arfer ac nid ydynt yn gwybod pam. O ystyried bod ansicrwydd o hyd ynghylch pryd y daw gwyliau tramor yn fwy ymarferol eto, mae'n anodd rhagweld ar yr adeg hon sut fydd y diwydiant yn dod ymlaen yn yr hydref. Fodd bynnag, mae rhai sylwadau'n dangos ei bod yn ymddangos ar hyn o bryd fel cyfnod y bydd angen hwb arno.

*"Mae'n ymddangos bod diffyg archebion o'r hydref ymlaen"*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

"*Rydyn ni wedi gweld llawer mwy o archebion ymlaen llaw nag y byddwn yn ei ddisgwyl, ond hefyd, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw archebion ar gyfer mis Hydref eto, sy'n anarferol iawn i ni."*
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

*"Does dim llawer o archebion ar ôl canol mis Medi."*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

## 5. Lefelau Staffio a Phroblemau Recriwtio

## Gosod staff ar ffyrlo

| **Nifer y staff wedi'u cyflogi'n barhaol** | **Cyfartaledd y staff sydd ar ffyrlo** *(Sampl: pob busnes sy'n cyflogi staff)* |
|---|---|
| 1 | 0.2 |
| 2 | 0.1 |
| 3 | 0.1 |
| 4 | 0.5 |
| 5 | 0.3 |
| 6 – 10 | 1.2 |
| 11 – 50 | 2.9 |
| Dros 50 | 0.4 |
| **Ffigur cyffredinol** | **1.3** |

Sampl: 455


**Nid oes llawer o staff ar ôl ar ffyrlo**

5.1 Ym mis Chwefror, roedd 9.2 o bobl ym mhob busnes twristiaeth sy'n cyflogi staff ar ffyrlo. Nawr bod y rhan fwyaf o'r diwydiant wedi ailagor , mae staff wedi'u galw i ddychwelyd i'r gwaith, gan adael 1.3 o weithwyr ar gyfartaledd ar ffyrlo ym mhob busnes sy'n cyflogi staff. Mater gwahanol yw p'un a yw'r gweithwyr am ddychwelyd i'r gwaith neu beidio, ac mae hyn yn cael ei drafod yn nes ymlaen.

## Ceisio llenwi swyddi gwag

5.2 Mae ychydig dros hanner (57%) o fusnesau'n cyflogi staff ac eithrio'r perchnogion ar hyn o bryd, ac nid yw'r 43% yn weddill yn gwneud hynny. Mae busnesau hunanddarpar yn benodol yn fwy tebygol o beidio â chyflogi staff – nid yw 72% yn ei wneud.

5.3 Gan fod diwydiant twristiaeth Cymru'n cynnwys nifer sylweddol o fusnesau sy'n cael eu rhedeg gan y perchnogion yn unig, dyma gyd-destun pwysig wrth edrych ar raddfa'r problemau recriwtio.




*Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb – felly mae'r niferoedd yn gwneud cyfanswm o dros 100%*

### Mae gan rai swyddi gwag

5.4 Mae lleiafrif o fusnesau'n ceisio llenwi swyddi gwag – mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw llawer o fusnesau'n aml yn cyflogi unrhyw un heblaw'r perchnogion.

5.5 O blith y busnesau sy'n cyflogi staff ar hyn o bryd, mae oddeutu un o bob pump (21%) yn chwilio am staff parhaol newydd, a'r un gyfran (21%) yn chwilio am staff tymhorol newydd.

## Nifer y staff mae busnesau yn chwilio amdanynt

| **Nifer y staff wedi'u cyflogi'n barhaol** | **Swyddi gwag parhaol sydd ar gael** *(Sampl: busnesau â swyddi parhaol gwag)* | **Cyfartaledd y swyddi gwag tymhorol** *(Sampl: busnesau â swyddi tymhorol gwag)* |
|---|---|---|
| 0 | Sampl yn rhy fach | 2.2 |
| 1 – 3 | 1.5 | 2.5 |
| 4 – 5 | 1.9 | 2.2 |
| 6 – 10 | 2.0 | 2.5 |
| 11 – 50 | 4.1 | 4.3 |
| Dros 50 | 7.0 | 5.6 |
| **Ffigur cyffredinol** | **3.4** | **3.2** |


Sampl: 95 – 109

### Busnesau lleiaf sydd â'r diffyg staff mwyaf yn ôl cyfran eu maint

5.6 Ar gyfartaledd, mae 3.4 swydd barhaol wag a 3.2 swydd dymhorol wag fesul busnes sy'n ceisio llenwi'r mathau hynny o swyddi. Mae ffigurau swyddi gwag yn cynyddu yn ôl maint y

busnes, ond nid yn ôl cyfran. Mae'n ymddangos mai busnesau sydd â'r nifer lleiaf o weithwyr sydd â nifer mwyaf o swyddi gwag mewn perthynas â'u maint presennol.


## Mathau o swyddi gwag




**Mae busnesau yn chwilio am weithwyr nad ydynt yn rheolwyr yn bennaf**

5.7 Mae'r rhan fwyaf (76%) o fusnesau â swyddi gwag yn ceisio llenwi swyddi sy'n gofyn am lefel isel o sgiliau neu brofiad. Mae maint y sampl yn rhy fach i'w ddadansoddi yn ôl sector .

## Anawsterau o ran recriwtio




**Anodd llenwi'r swyddi gwag**

5.8 Mae gweithredwyr â swyddi gwag yn ei chael hi'n anodd ceisio dod o hyd i bobl addas i'w llenwi. Mae sawl rheswm dros hyn, sy'n cael eu trafod nesaf.

5.9 Mae'n anodd cymharu gwahaniaethau rhwng rhanbarthau a sectorau yn ddibynadwy oherwydd maint bach iawn y samplau unigol ar gyfer y cwestiwn hwn, ond y sefyllfa gyffredinol yw bod recriwtio'n anodd i bawb sy'n ceisio recriwtio ym mhob sector a rhanbarth.

## Rhesymau dros anawsterau o ran recriwtio




**Mae bod ar ffyrlo wedi rhoi amser i weithwyr feddwl**

5.10 Yn ddi-os, mae'r cynllun ffyrlo wedi cadw llawer o swyddi y llynedd ac eleni, ond yn anffodus ar gyfer diwydiant twristiaeth Cymru, mae hyn yn golygu bod busnesau yn awr yn wynebu her wrth ddenu eu staff yn ôl.

5.11 Mae'r nifer o'r rhesymau a roddwyd mewn perthynas â hyn yn ymwneud â'r un her : nid yw llawer o bobl yn gweld swydd mewn twristiaeth yn arbennig o ddymunol. Mae sectorau eraill – os yw pobl hyd yn oed am weithio o gwbl – yn cael eu gweld fel rhai sy'n cynnig tâl gwell, oriau mwy dymunol (llai gwrthgymdeithasol) neu fwy o sicrwydd. Nawr bod llawer o staff wedi

cael amser i feddwl am eu profiad o ffyrlo, nid yw dychwelyd at eu swydd mewn twristiaeth yn apelio atynt bellach.

*“Yn ystod y cyfnod ffyrlo, sylweddolodd llawer o bobl eu bod nhw eisiau treulio mwy o amser gyda'u teulu felly mae'n anodd cael unrhyw un i weithio llawn amser"*
Parc carafanau, y Gogledd

"*Roeddwn yn ei chael hi'n mor anodd dod o hyd i staff, roedd yn rhaid imi fynd at diwtor y chweched dosbarth er mwyn dod o hyd i fyfyrwyr i'w cyflogi.Mae pobl yn rhy gyfforddus ar fudd-daliadau ac mae llawer o bobl wedi arbed arian yn ystod y cyfyngiadau symud a does dim rhaid iddyn nhw weithio."*
Atyniad, y De-ddwyrain

"*Yn fy marn i, aeth pobl ar ffyrlo a gwnaethon nhw roi cynnig ar fathau eraill o swyddi, a nawr dydyn nhw ddim eisiau dychwelyd i faes lletygarwch"*
Bwyty, y Canolbarth

*“Dydy pobl ddim eisiau cymryd y siawns o gael swyddi gyda ni oherwydd mai ni fydd un o'r lleoedd cyntaf i gau os bydd pethau'n mynd yn waeth a bydd cyfyngiadau symud yn cael eu cyflwyno eto"*
Tafarn, y de-ddwyrain

*“Mae ffyrlo wedi gwneud y wlad yn ddiog"*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*“Mae'r cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd ym maes lletygarwch yn ofnadwy ac mae'r cyfyngiadau symud wedi rhoi cyfle i bobl sylweddoli hynny"*
Tafarn, De-orllewin

**Colli’r pwll craidd**

5.12 Yn y gorffennol, roedd rhai busnesau yn llwyddo i ddod o hyd i weithwyr parod o blith grwpiau penodol o'r boblogaeth leol megis gwladolion a myfyrwyr tramor, ond oherwydd nad yw’r bobl hyn yn yr ardal leol bellach mae’r problemau recriwtio wedi gwaethygu.

*“Does gan y bobl Brydeinig leol ddim diddordeb mewn gweithio ar hyn o bryd"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"*Mae'r holl fyfyrwyr wedi mynd gartref neu'n astudio gartref felly rydyn ni’n ei chael hi'n anodd dod o hyd i staff i weithio’r oriau"*
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

**Anodd dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau neu brofiad cywir**

5.13 Mae maint y samplau yn ôl sector yn fach, ond mae'r canlyniadau'n awgrymu bod yr atyniadau a darparwyr gweithgareddau sy'n ei chael hi'n anodd recriwtio yn cael trafferth dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau neu'r profiad cywir - mae 17 o'r 21 o atyniadau a darparwyr gweithgareddau yn y sampl ar gyfer y cwestiwn hwn yn dweud hyn.

*“Does dim hyfforddwyr ar gael. Does dim hyfforddwyr wedi'u hyfforddi ers dwy flynedd bellach."*
Darparwr gweithgareddau, y Canolbarth

**Diffyg brwdfrydedd ymhlith rhai ymgeiswyr**


5.14 Mae'n ymddangos ei bod mor hawdd dod o hyd i swyddi ym maes twristiaeth ar hyn o bryd i’r rheini sy’n dymuno eu cael, fel nad yw rhai ymgeiswyr sy’n cael cynnig cyfweliad yn trafferthu mynd i’w cyfweliadau.

*“Mae llawer o bobl yn gwneud cais ond does neb yn dod. Ni wnaeth yr un ymgeisydd o blith wyth ar gyfer swydd cogydd ddod i’r cyfweliad."*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*“Ni ddaeth yr ymgeiswyr Cymreig lleol am y cyfweliad hyd yn oed, felly yr unig ddewis arall oedd gennyn ni oedd cyflogi myfyrwyr rhyngwladol”*
Parc carafanau, y Gogledd

## Effeithiau anawsterau recriwtio

**C18 "Pa effaith y byddai'n ei chael ar eich busnes os na allwch ddod o hyd i'r staff cywir?"**
***(Heb anogaeth)***



**Mae staff presennol o dan lawer o straen**

5.15 Ymhlith y busnesau sy'n ei chael hi'n anodd llenwi swyddi gwag, mae'r effeithiau o beidio â'u llenwi'n sylweddol. I'r rhan fwyaf ohonynt, mae'n golygu bod yn rhaid i'r staff presennol a/neu'r perchnogion weithio oriau ychwanegol, sy'n iawn os oes gwir angen yr arian ar staff, ond ddim os ydynt o dan lawer o straen yn barod.

"*Mae'n golygu llawer o waith ychwanegol i fi a'm merch gan ein bod ar agor saith diwrnod yr wythnos"*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

"*Byddai'n ofnadwy i'r staff presennol yma [os na chaiff y swyddi gwag eu llenwi].Byddai'n effeithio ar eu horiau gwaith i gyd."*
Atyniad, y De-orllewin

*"Rydyn ni'n gweithio'n galed iawn. Rydyn ni fel arfer yn brysur iawn yn yr haf yn unig ond hon yw ein blwyddyn orau erioed a does dim digon o staff yma."*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

*"Fi yw'r perchennog ac mae'n rhaid imi weithio yn y gegin ar hyn o bryd"*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

**Capasiti neu oriau masnachu llai**

5.16 Yn hytrach na gwthio eu hunain neu eu staff presennol i'r eithaf, mae rhai perchnogion wedi penderfynu lleihau eu capasiti neu'u horiau masnachu.

*"Rwy'n bwriadu cyfyngu ar yr oriau, yn hytrach na lladd fy staff gyda goramser. Dydyn ni ddim yn agor yn ystod amser cinio yn ystod yr wythnos bellach."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"*Mae llawer o fwytai yn yr ardal yn gweithio llai o oriau oherwydd diffyg staff. Byddwn ni yn yr un sefyllfa hefyd os na fyddwn ni'n gallu dod o hyd i'r staff cywir."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*"Rydyn ni wedi gorfod gwrthod cwsmeriaid yn ystod yr oriau prysuraf oherwydd nad oes gennyn ni ddigon o gogyddion i ddelio â nhw.*
Bwyty, y De-ddwyrain

**Pryd fydd ein bwyd yn barod?**

5.17 Os na fyddant yn gallu llenwi swyddi gwag, mae rhai busnesau'n ofni y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar brofiad cwsmeriaid.

*"Bydd yn rhaid i bobl aros yn hirach am eu bwyd os na allwn ni ddod o hyd i staff arlwyo.Mae arwyddion yn y ffenestri ledled Dinbych-y-Pysgod yn hysbysebu swyddi arlwyo gwag."*
Atyniad, y De-orllewin


**A yw'r anhawster recriwtio yn broblem yn yr hirdymor?**

5.18 Er bod nifer o heriau recriwtio ar hyn o bryd, mae rhai gweithredwyr o’r farn na fydd y broblem yn para am hir.

> *“Mae cogyddion wedi cael swyddi eraill yn danfon parseli i Amazon. Maen nhw wedi sylwi nad oes rhaid iddyn nhw weithio nos Sadwrn.Rwy’n siŵr y byddan nhw’n ôl mewn ychydig o fisoedd."*
> Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

> "*Dydy  pobl ddim eisiau rhoi’r gorau i fod ar  ffyrlo, ond pan ddaw’r gaeaf, bydd dim arian ar ôl ganddyn nhw a byddan nhw’n chwilio am waith eto."*
> Bwyty, y Gogledd

## 6. Hyder




**Lefel resymol o hyder**

6.1 Ar ôl yr ansicrwydd a chyfnodau o fod ar gau dros y 15 mis diwethaf, mae'r rhan fwyaf (69%) o weithredwyr yn hyderus y gallant redeg eu busnes a gwneud elw am weddill y flwyddyn.

6.2 Mae'r hyder yn cyd-fynd â lefelau archebu ymlaen llaw a chapasiti gweithredu. O blith y darparwyr mwyaf hyderus, mae 40% o weithredwyr hunanddarpar a 35% o fusnesau yn ne-orllewin Cymru yn 'hyderus iawn'. Mae lefelau archebu ymlaen llaw ar ei uchaf ymhlith y grwpiau hyn, ac mae gweithredwyr hunanddarpar yn y sefyllfa orau i weithredu ar gapasiti uchel, gan olygu ei bod yn haws rhedeg y busnes a gwneud elw.

6.3 Ar ben arall y raddfa, dywedodd 27% o weithredwyr gweithgareddau 'nad oeddynt yn yn hyderus o gwbl'. Dyma'r sector lle mae capasiti gweithredu yn fwyaf heriol a lle mae lefelau archebu ymlaen llaw ar eu gwannaf.

**Gall busnesau oroesi bellach, ar yr amod na fydd cyfnod arall o gyfyngiadau**

6.4 Mae'r hyder i weithredu a gwneud elw hyd at ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ysgogi gan y lefel uchel o ymholiadau ac archebion – hyd yn oed os caiff rhai o'r archebion hynny eu canslo neu ni fyddant yn cael eu gwneud tan y funud olaf. Mae busnesau bellach yn teimlo y gallant ddal dau ben llinyn ynghyd eleni – ar yr amod na fydd cyfnod arall o gyfyngiadau.

*"Cyn belled nag y bydd cyfnod arall o gyfyngiadau symud , rwy'n eithaf hyderus y byddwn yn gwneud elw"*
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

## Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

Llety â gwasanaeth ❑
Llety hunan arlwyo ❑
Maes carafannau / pebyll ❑
Hostel ❑
Amgueddfa ❑
Atyniad ❑
Cynal gweithgaredd ❑
Bwyty / tafarn / caffi ❑

Q1 A oedd eich busnes ar agor yn hanner tymor mis Mai?

Oedd ❑
Nac oedd ❑

Q2 *Os ar agor*

Ar ba lefel o gapasiti arferol oeddech chi'n gweithredu?

Capasiti llawn ❑
75 – 99% ❑
50 – 74% ❑
25 – 49% ❑
Llai na 25% ❑

Q3 *Os ar agor*

Faint o gwsmeriaid oedd gennych chi yn ystod hanner tymor mis Mai o'i gymharu â mewn blwyddyn arferol?

Mwy na'r arfer ❑
Tua'r un peth â'r arfer ❑
Llai na'r arfer ❑
Ddim yn gwybod ❑

Q4 *Os ddim ar agor yn ystod hanner tymor mis Mai*

A ydych ar hyn o bryd yn derbyn archebion ymlaen llaw yn 2021, gan gynnwys unrhyw ail-archebion o'r llynedd?

Ydw ❑
Nac ydw ❑

Q5 *Oes oedd/ydw i C1 neu C4*

Faint o archebion ymlaen llaw sydd gennych chi ar gyfer gweddill 2021 o'i gymharu â nifer yr archebion y byddech chi fel arfer yn eu cael ar yr adeg hon o'r flwyddyn?

Mwy na'r arfer ❑
Tua'r un peth â'r arfer ❑
Llai na'r arfer ❑
Ddim yn gwybod ❑

Q6 *Os llai o archebion*

Pam ydych chi'n meddwl bod gennych chi lai o archebion ymlaen llaw na'r arfer?

*Annog os oes angen*

- Nid ydym yn mynd ati i hyrwyddo'r busnes ar hyn o bryd ❑
- Mae pobl yn ofalus am archebu ❑
- Mae llai o gapasiti yn cyfyngu faint o archebion y gallwn eu cymryd ❑
- Pobl yn archebu dramor yn lle ❑
- Llawer o gansladau hwyr ❑
- Colli marchnad benodol ❑
- Diffyg eglurder ynghylch pryd i dderbyn archebion ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑

*Nodwch ymateb 'arall'* ______________________________

Q7 *Os mwy o archebion*

Pam ydych chi'n meddwl bod gennych chi fwy o archebion ymlaen llaw nag arfer?

*Annog os oes angen*

- Lefel sylweddol o ail-archebion o gansladau blaenorol ❑
- Mae pobl yn ysu am fynd ar wyliau ❑
- Ymwelwyr y DU yn archebu yng Nghymru yn lle archebu dramor ❑
- Ddim yn gwbod ❑
- Arall ❑

*Nodwch eich ymateb 'arall'* ______________________________

Q8 *Os oedd/ydw i C1 neu C4*

Tua pa ganran o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer ...? Wrth 'gapasiti sydd ar gael' rydym yn golygu'r lefel capasiti rydych chi'n meddwl y gallwch chi weithredu arni.

| | Llai na 10% | 11 - 25% | 26 - 50% | 51 - 75% | 76 - 99% | 100% | Ddim yn gwybod | Ddim yn berthnasol - ddim yn cymryd archebion ar gyfer y mis hwn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Awst | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Medi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Y tu hwnt i fis Medi | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

Q9 *Os oedd/ydw i C1 neu C4*

A oes unrhyw dueddiadau archebu rydych wedi sylwi am 2021 sy'n wahanol i'r arfer?

*(Annog os oes angen: gansladau ar y munud olaf, gwahanol fath o ymwelydd (e.e. mwy neu lai o bobl hyn), arosiadau hirach neu fyrrach, mwy ymlaen llaw / mwy y funud olaf ac ati, ymholiadau am bolisiau canslo ac ati)*

*Cyfwelydd: cofnodwch hefyd unrhyw sylwadau defnyddiol am archebion y blwyddyn yma*

________________________________________________________________________________

_______________________________

Q10 Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo ynglŷn â rhedeg busnes twristiaeth yn broffidiol am weddill y flwyddyn hon?

- Hyderus iawn ❑
- Eithaf hyderus ❑
- Ddim yn hyderus ❑
- Ddim yn hyderus o gwbl ❑
- Dim yn gwybod ❑
- Dim yn berthnasol ❑

Q11 Faint o staff parhaol â thâl y mae eich busnes yn eu cyflogi ar hyn o bryd, ac eithrio'r perchnogion?

- Dim ❑
- 1 ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 ❑
- 6 i 10 ❑
- 11 i 50 ❑
- 51 i 100 ❑
- 101 i 250 ❑
- Mwy na 250 ❑

Q12 *Os yn cyflogi staff parhaol â thâl*

A faint o staff parhaol â thâl sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd?

- Dim ❑
- 1 ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 ❑
- 6 i 10 ❑
- 11 i 50 ❑
- 51 i 100 ❑
- 101 i 250 ❑
- Mwy na 250 ❑

Q13 *Pawb*

Ydych chi ar hyn o bryd yn ceisio llenwi unrhyw swyddi gwag, boed hynny'n swyddi barhaol neu dymhorol?

*Tick all that apply*

Ydw - barhaol ❑
Ydw - tymhorol ❑
Nac ydw ❑

Q14 *Os yn recriwtio*

Faint o swyddi gwag ydych chi'n ceisio eu llenwi?

Swyddi gwag parhaol __________
Swyddi gwag tymhorol __________

Q15 *Os yn recriwtio*

Pa un o'r swyddi a'r lefelau profiad canlynol rydych chi'n ceisio eu llenwi ar hyn o bryd?

*Darllenwch allan a thiciwch bopeth sy'n berthnasol*

Rheolaethol ❑
An-reoli ond angen lefel uchel o sgil neu brofiad ❑
An-reoli sydd angen lefel isel o sgil neu brofiad ❑

Q16 *Os yn recriwtio*

Ydych chi'n cael unrhyw anawsterau wrth ddod o hyd i'r staff sydd eu hangen arnoch chi?

Ydw - llawer o anhawster ❑
Ydw - ychydig o anhawster ❑
Na ❑
Ddim yn gwybod eto ❑

Q17 *Os unrhyw trafferthion*

Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi'n cael anawsterau wrth ddod o hyd i'r staff rydych yn angen?

*Heb annog, ticiwch bobeth sy'n berthnasol*

Diffyg diddordeb mewn gweithio oriau anghymdeithasol ❑
Diffyg diddordeb mewn gwaith â chyflog isel ❑
Swydd yn cael ei hystyried yn 'ddim yn swydd da/ go iawn' ❑
Anodd dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau neu'r profiad cywir ❑
Anodd cael staff i ddychwelyd o furlough ❑
Gormod o swyddi gwag i'w llenwi mewn cyfnod byr ❑
Cystadleuaeth gan sectorau eraill / sectorau eraill yn fwy deniadol ❑
Diffyg myfyrwyr yn aros yn yr ardal ❑
Llai o weithwyr yr UE o gwmpas ❑
Nid oes gennym yr adnoddau i hysbysebu ❑
Gormod o ansicrwydd swydd yn y sector twristiaeth ❑
Dim yn gwybod ❑
Arall ❑

*Nodwch reswm(au) arall* ______________________

Q18 *Os unrhyw trafferthion*

Pa effaith y byddai'n ei chael ar eich busnes os na allwch ddod o hyd i'r staff cywir?

*Heb annog, ticiwch bobeth sy'n berthnasol*

- Oriau ychwanegol i staff presennol ❑
- Gorfod cyflogi staff asiantaeth ❑
- Gorfod hyfforddi staff newydd sydd â sgiliau neu brofiad cyfyngedig ❑
- Gorfod lleihau capasiti neu oriau masnachu ❑
- Effaith negyddol ar brofiad y cwsmer ❑
- Straen ychwanegol ❑
- Gorfod cau ❑
- Dim yn gwybod ❑
- Arall ❑

*Nodwch effaith(iau) arall* ______________________

Q19 *Os unrhyw trafferthion*

Cyfwelydd: chwiliwch am fwy o fanylion ar yr ateb uchod a chofnodwch sylwadau defnyddiol

______________________

Q20 Cyfwelydd: cofnodwch unrhyw sylwadau defnyddiol a wnaed yn ystod y cyfweliad

______________________